Iesu'n bwydo'r pum mil

Mathew 14: 13-22; Marc 6: 31-46; Luc 9: 10-17; Ioan 6: 1-13

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Mathew 14: 13-22; Marc 6: 31-46; Luc 9: 10-17; Ioan 6: 1-13		
1	Roedd Ioan Fedyddiwr, cefnder Iesu, wedi cael ei ladd gan y Brenin Herod. Pan glywodd Iesu beth oedd wedi digwydd, aeth i ffwrdd mewn cwch i le tawel i fod ar ei ben ei hun.		
2	Ond clywodd y tyrfaoedd am hyn, a'i ddilyn ar droed o'r trefi.		
3	Pan gyrhaeddodd Iesu'r lan, gwelodd dyrfa fawr yn aros amdano.		

4	Aeth i fyny i'r bryniau i'w dysgu.	
5	Iachaodd y rhai oedd yn sâl.	
6	Roedd tua 5,000 o ddynion yno heb sôn am wragedd a phlant!	
7	Roedd hi'n dechrau nosi, felly dyma'r disgyblion yn dod ato a dweud, “Mae'r lle yma'n anial ac mae'n mynd yn hwyr. Anfon y bobl i ffwrdd, iddyn nhw gael mynd i'r pentrefi i brynu bwyd.”	
8	Atebodd Iesu, “Does dim rhaid iddyn nhw fynd i ffwrdd. Rhowch chi rywbeth i'w fwyta iddyn nhw.”	

9	Gofynnodd i Philip, “Ble dŷn ni'n mynd i brynu bwyd i'r bobl yma i gyd?” (Roedd eisiau gweld beth fyddai ymateb Philip, achos roedd Iesu'n gwybod beth oedd e'n mynd i'w wneud).	
10	Atebodd Philip, “Byddai angen ffortiwn i brynu digon o fwyd i bob un ohonyn nhw gael tamaid bach!”	
11	Yna dyma Andreas (brawd Simon Pedr), yn dweud, “Mae bachgen yma sydd â phum torth haidd a dau bysgodyn bach ganddo. Ond dydy hynny fawr o werth hefo cymaint o bobl!”	
12	Dyma Iesu'n dweud wrthyn nhw am wneud i'r bobl eistedd mewn grwpiau ar y glaswellt. Felly dyma pawb yn eistedd mewn grwpiau o hanner cant i gant.	
13	Wedyn dyma Iesu'n cymryd y pum torth a'r ddau bysgodyn.....	

14	...ac offrymu gweddi o ddiolch i Dduw. Torrodd y bara a'i roi i'w ddisgyblion i'w rannu i'r bobl, a gwneud yr un peth gyda'r ddau bysgodyn.	
15	Rhannwyd y bwyd i'r bobl....	
16	..ac roedd digon i bawb.	
17	Ar ôl i bawb gael llond eu boliau.....	
18	..... dyma'r dusgyblion yn codi deuddeg llond basged o dameidiau oedd wedi eu gadael dros ben.	

19	Dyma Iesu'n gwneud i'w ddisgyblion fynd yn ôl i'r cwch a chroesi drosodd o'i flaen.	
20	Ar ôl iddo anfon y dyrfa adre, aeth i ben mynydd er mwyn cael lle tawel i weddïo.	
21	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	Free Bible images THE WORD IN PICTURES www.freebibleimages.org
22		